**Memorandwm Esboniadol** ar gyfer Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2025.

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg, Diwylliant a’r Gymraeg ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau’r costau tebygol.

**Lynne Neagle AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
16 Medi 2025

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

Mae Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2025 ("y Gorchymyn") yn darparu ar gyfer tâl ac amodau cyflogaeth athrawon ysgol yng Nghymru, i'w penderfynu drwy gyfeirio at y darpariaethau a nodir yn adran 2 o Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2025 ("y Ddogfen") a'r canllawiau ar gyflog ac amodau athrawon. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 7 Hydref. Bydd y darpariaethau ar gyflog ac amodau athrawon o dan adran 2 o'r Ddogfen yn dod i rym yn ôl-weithredol o 1 Medi 2025.

Cafodd y cyfrifoldeb am gyflog ac amodau athrawon ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru ar 30 Medi 2018. Mae'r Ddogfen yn gymwys i athrawon a gyflogir mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae'r Ddogfen yn cymryd lle Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2024.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Bydd y darpariaethau o dan adran 2 o'r Ddogfen yn dod i rym yn ôl-weithredol o 1 Medi 2025. Caniateir hyn yn benodol o dan adran 123(3) o Ddeddf Addysg 2002.

Nododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad bwynt adrodd technegol o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2024 SL(6)545[1]. Cytunodd Llywodraeth Cymru â'r pwynt adrodd technegol hwn ac yn y Gorchymyn mae'r diffiniad o "athro neu athrawes ysgol" yn berthnasol i'r Gorchymyn cyfan.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae gan Weinidogion Cymru y pwerau i bennu cyflog ac amodau athrawon yng Nghymru o dan adrannau 122 i 124 ac 126 i 127 o Ddeddf Addysg 2002 ("y Ddeddf"). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn, o ran Cymru, i Weinidogion Cymru ar 30 Medi 2018 oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018.

Mae adran 122(1) o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, i wneud darpariaeth ar gyfer tâl athrawon ysgol yng Nghymru ac amodau cyflogaeth eraill sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau proffesiynol a'u hamser gwaith.

[1] https://senedd.wales/media/qjwbgfzb/cr-ld16816-w.pdf

Mae adran 123(3) o'r Ddeddf yn darparu y caiff gorchymyn o dan adran 122 wneud darpariaeth ôl-weithredol, ond nid er mwyn—

a. lleihau tâl mewn perthynas â chyfnod yn gyfan gwbl neu'n rhannol cyn gwneud y gorchymyn, neu
b. newid amod cyflogaeth er anfantais i athro mewn perthynas â chyfnod yn gyfan gwbl neu'n rhannol cyn gwneud y gorchymyn.

Mae adran 124(3) o'r Ddeddf yn darparu y gall gorchymyn a wneir o dan adran 122 wneud darpariaeth drwy ddogfen, y mae rhaid ei chyhoeddi hefyd.

Mae adran 126 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyrff canlynol y maent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy o ystyried cynnwys y gorchymyn cyn gwneud gorchymyn o dan adran 122. Y cyrff yw: cymdeithasau awdurdodau lleol; awdurdodau lleol, y rhai sy'n cynrychioli cyrff llywodraethu ysgolion, a chyrff sy'n cynrychioli athrawon ysgol (undebau athrawon).

Gwneir y Gorchymyn hwn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae’r Gorchymyn yn gymwys i bob athro ysgol (fel y diffinnir “school teacher” yn adran 122(3) i (6) o’r Ddeddf) yng Nghymru. Mae’r Gorchymyn hwn yn cyflwyno ystodau cyflog a lwfansau newydd yn y fframwaith cyflog cenedlaethol ar gyfer athrawon ysgol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn unig. Mae gan ysgolion nas cynhelir yng Nghymru ryddid a hyblygrwydd i fabwysiadu ystodau cyflog a lwfansau ar gyfer eu hathrawon sy'n adlewyrchu eu hamgylchiadau lleol orau.

Mae’r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith i adran 2 o’r Ddogfen.

Roedd y broses a arweiniodd at y Ddogfen yn cynnwys y camau allweddol canlynol:

- Mae Fforwm Partneriaeth Cyflog Athrawon (pob undeb athrawon a chyflogwr) yn trafod cwmpas cylch gwaith drafft ac yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru;
- Mae Gweinidogion Cymru yn dyroddi llythyr cylch gwaith ar gyfer Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB) sy’n amlinellu meysydd cyflog athrawon ac amodau y gallai fod angen eu newid;
- Mae IWPRB yn ystyried tystiolaeth a gyflwynwyd gan randdeiliaid ac yn darparu argymhellion i Weinidogion Cymru;
- Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried yr argymhellion ac yn pennu cyflog ac amodau athrawon yn dilyn ymgynghoriad ysgrifenedig gyda rhanddeiliaid allweddol.

Mae adran 1 o'r Ddogfen yn crynhoi'r newidiadau i gyflog ac amodau a'r canllawiau cysylltiedig ers Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2024 a gwybodaeth berthnasol arall am y Ddogfen. Mae saith rhan a dau atodiad i adran 2 o'r Ddogfen. Mae Rhannau 2 i 6 yn nodi sut y dylid pennu cyflog a lwfansau ar gyfer y gwahanol gategorïau o athrawon. Mae Rhan 7 yn nodi amodau cyflogaeth ar gyfer y gwahanol gategorïau o athrawon a fydd yn effeithiol fel telerau eu contractau cyflogaeth. Mae'r Atodiadau i adran 2 o'r Ddogfen yn nodi'r safonau proffesiynol ar gyfer athrawon a materion dehongli. Mae adran 3 o'r Ddogfen yn ganllaw statudol i gyd-fynd â'r darpariaethau yn adran 2.

***Dyfarniad cyflog mis Medi 2025***

Ar ôl ystyried yr argymhelliad yn chweched adroddiad IWPRB, bydd codiad o 4% yn cael ei gymhwyso ar gyfer pob lwfans a phwynt graddfa. Bydd pob codiad yn cael ei gyflwyno o 1 Medi 2025 ymlaen.

Arfer sydd wedi’i hen sefydlu yw bod gorchymyn sy’n pennu cyflog athrawon yn cael ei gyflwyno’n flynyddol, a’r cynigion newydd mewn perthynas â’r cyflog a nodir yn y ddogfen yn cael effaith o 1 Medi ymlaen bob blwyddyn. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu parhau â’r arfer honno. Fodd bynnag, o ganlyniad i’r amser cyfyng rhwng pob cam yn y broses gyflog eleni a’r angen i ymgynghori â rhanddeiliaid, nid oedd yn bosibl gosod y Gorchymyn yn gynt.

Mae’r Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2024.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

**5. Yr opsiynau**

Er mwyn cyflawni'r amcan polisi o gyflog ac amodau cyson a rhesymol i athrawon yng Nghymru sy'n gwobrwyo'r proffesiwn yn briodol ac yn cefnogi recriwtio a chadw staff, nodwyd yr opsiynau canlynol:

1. Gwneud dim.
2. Mabwysiadu dull deddfwriaethol drwy weithredu newidiadau fel y'u hargymhellir gan IWPRB, gan gynnwys dyfarniad cyflog o 4.8%.
3. Mabwysiadu dull deddfwriaethol drwy weithredu dyfarniad cyflog o 4%.

**6. Costau a manteision**

**Opsiwn 1 – Gwneud dim.**

Manteision
Un o fanteision mabwysiadu'r opsiwn sylfaenol hwn yw'r arbedion costau uniongyrchol posibl ar draws cyllidebau ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae cyflog athrawon yn elfen sylweddol o gost gyffredinol cyllid ysgolion ac, yn eu tro, o gyllidebau awdurdodau lleol, sydd dan bwysau sylweddol.

Costau
Nid oes unrhyw gostau ariannol ychwanegol yn gysylltiedig â’r opsiwn hwn. Fodd bynnag, mae gwneud dim yn dod â lefel uchel o risg. Er y gall fod rhai manteision o ran arbed costau uniongyrchol, byddai hyn yn cael effaith negyddol iawn am y rhesymau canlynol:

- Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir bod angen sefydlu system sy'n cydnabod ac yn gwobrwyo'r proffesiwn addysgu yng Nghymru, ac mae amcan polisi i wneud hyn.
- Yn dilyn gweithredu diwydiannol diweddar gan undebau athrawon, pe na bai dyfarniad cyflog yn cael ei ddarparu, mae risg sylweddol y gallai hynny arwain at ailddechrau gweithredu diwydiannol a fydd yn cael effaith negyddol ar addysg pobl ifanc.

Yn ein barn ni, er y gallai fod rhai manteision o ran arbed costau uniongyrchol, nid yw'r opsiwn hwn yn cyflawni'r nod o gydnabod a gwobrwyo'r proffesiwn addysgu yng Nghymru yn briodol.

**Opsiwn 2 - Mabwysiadu dull deddfwriaethol drwy weithredu newidiadau fel y'u hargymhellir gan IWPRB, gan gynnwys dyfarniad cyflog o 4.8%.**

Manteision

Byddai'r opsiwn hwn yn unol ag argymhelliad IWPRB. Byddai hyn yn darparu manteision ariannol ychwanegol i athrawon.

Costau
Er bod yr opsiwn hwn yn dilyn argymhelliad IWPRB, mae costau cysylltiedig sylweddol.

Mae cynnydd o 4.8% ar draws pob lwfans a phwynt graddfa athrawon yn cyfateb i gynnydd amcangyfrifedig i'r bil cyflogau cyffredinol o £52.818m ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-26 (mis Medi 2025 hyd fis Mawrth 2026) a £90.546m ar gyfer y flwyddyn academaidd lawn o'r flwyddyn ariannol 2026-27.

Mae arian i dalu cyflogau athrawon yn rhan o'r arian craidd a ddarperir gan awdurdodau lleol fel y'i cefnogir gan y Setliad Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, pan fo'r dyfarniad cyflog yn uwch nag a ragwelwyd mewn cytundebau cyllidebu, mae Llywodraeth Cymru yn flaenorol wedi darparu cyllid grant ychwanegol yn ystod y flwyddyn i dalu costau setliadau cyflog uwch.

Fodd bynnag, ar ôl ystyried y cyd-destun ariannol yn ofalus, nid yw'n fforddiadwy o fewn cyllidebau Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid llawn ar gyfer y cyllid grant ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Yn y cyd-destun hwn, pe bai Llywodraeth Cymru yn cytuno ar 4.8%, byddai elfen o hyn heb ei hariannu ac yn creu pwysau ychwanegol ar gyllidebau awdurdodau lleol ac ysgolion. Gallai hyn arwain at ddiswyddiadau, sydd eisoes yn bryder i undebau addysgu ac ysgolion.

**Opsiwn 3 - Mabwysiadu dull deddfwriaethol drwy weithredu dyfarniad cyflog o 4%.**

Manteision
Byddai'r opsiwn hwn yn gwobrwyo'r proffesiwn addysgu yng Nghymru yn unol â'r amcan polisi tra'n galluogi Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid ychwanegol i dalu'r gwahaniaeth rhwng y senario gyllidebu fel y rhagwelwyd a'r dyfarniad cyflog a fydd yn cael ei weithredu.

Costau
Mae cynnydd o 4% ar draws pob lwfans a phwynt graddfa athrawon yn cyfateb i gynnydd amcangyfrifedig o £10.4m i'r bil cyflog cyffredinol ar gyfer 7 mis o 2025-26 ac £17.8m ar gyfer y flwyddyn academaidd lawn (effaith blwyddyn ariannol 2026-27).

Fodd bynnag, er mwyn lliniaru effaith y costau hyn ar gyllidebau ysgolion ac awdurdodau lleol, sydd eisoes wedi'u pennu ar gyfer 2025-26, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant ychwanegol yn ystod y flwyddyn drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol, i gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion â'r codiad cyflog.

Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir

I grynhoi, yr opsiwn a ddewiswyd yw Opsiwn 3.

Gwnaed y penderfyniad hwn drwy ystyried y manteision a'r costau fel y nodir uchod.

Nid yw'r newidiadau deddfwriaethol hyn yn effeithio ar fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddoli.

Mae'r effaith ar y sector cyhoeddus yn ymwneud â chyllidebau ysgolion a gynhelir yng Nghymru i'r graddau y mae'n gwneud newidiadau i gyflog ac amodau athrawon a gyflogir gan awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu. Fodd bynnag, caiff cyllid ychwanegol ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion ag effeithiau cyllidebol y newidiadau hyn.

## 7. Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad ysgrifenedig pedair wythnos gyda rhanddeiliaid allweddol ar argymhellion Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer newidiadau i gyflog athrawon rhwng 10 Mehefin ac 8 Gorffennaf 2025. Y rhanddeiliaid allweddol y cytunwyd arnynt yw'r sefydliadau/unigolion yr ymgynghorir â hwy fel rhan o'r model cyflog ac amodau a sefydlwyd yn dilyn trosglwyddo pwerau. Mae'r ymgyngoreion yn cynnwys undebau athrawon, awdurdodau lleol a chymdeithasau esgobaethol, y mae pob un ohonynt wedi'u cynrychioli yn Fforwm Partneriaeth Cyflog ac Amodau Athrawon.

Roedd yr ymatebion gan ymgyngoreion yn gyffredinol yn gymysgedd o sylwadau cadarnhaol a rhai negyddol. Ar y cyfan, nid oedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn gefnogol yn gyffredinol i'r dyfarniad o 4% oherwydd ei fod yn is nag argymhelliad IWPRB. Fodd bynnag, pwysleisiodd pob ymgynghorai fod angen i'r dyfarniad gael ei ariannu'n llawn.

## 8. Asesu’r Gystadleuaeth

Amherthnasol.

## 9. Adolygu ar ôl gweithredu

Mae hon yn broses ddeddfwriaethol flynyddol ac mae'r newidiadau hyn ond yn gymwys ar gyfer 2025/26. Bydd y broses gyflogau ar gyfer blwyddyn 7 yn dechrau cyn hir, a bydd hyn yn pennu Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) ar gyfer 2026/27.